OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2010 No. 66

## Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010

## RHAN 1

Safonau dŵr

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010; maent yn gymwys o ran Cymru a deuant i rym ar 4 Chwefror 2010.

**Cwmpas**

**2.** Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran cyflenwadau preifat o ddŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl; ac at y dibenion hyn, ystyr "dŵr a fwriedir i'w yfed gan bobl" ("water intended for human consumption") yw—

(a) pob dŵr, naill ai yn ei gyflwr gwreiddiol neu ar ôl ei drin, a fwriedir ar gyfer yfed, coginio, paratoi bwyd neu ddibenion domestig eraill, beth bynnag fo'i darddiad a pha un a'i cyflenwir o rwydwaith dosbarthu, neu o dancer neu mewn poteli neu gynwysyddion;

(b) pob dŵr a ddefnyddir mewn unrhyw ymgymeriad cynhyrchu bwyd ar gyfer gweithgynhyrchu, prosesu, cyffeithio neu farchnata cynhyrchion neu sylweddau a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl.

**Esemptiadau**

**3.** Nid yw'r rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag —

(a) dŵr y mae'r Rheoliadau Dŵr Mwynol Naturiol, Dŵr Ffynnon a Dŵr Yfed wedi'i Botelu (Cymru) 2007([1]) yn gymwys iddo;

(b) dŵr sy'n gynnyrch meddyginiaethol yn yr ystyr a roddir i "medicinal product" yn Neddf Meddyginiaethau 1968([2]); neu

(c) dŵr a ddefnyddir yn unig ar gyfer golchi cnwd ar ôl ei gynaeafu, ac nad yw'n effeithio ar addasrwydd y cnwd, nac unrhyw fwyd neu ddiod sy'n tarddu o'r cnwd, ar gyfer ei fwyta neu ei yfed gan bobl.

**Iachusrwydd**

**4.** Mae dŵr yn iachus os bodlonir pob un o'r amodau canlynol —

(a) nad yw'n cynnwys unrhyw ficro-organeb, parasit neu sylwedd mewn crynodiad neu werth a fyddai, ar ei ben ei hunan neu ar y cyd ag unrhyw sylwedd arall, yn creu perygl posibl i iechyd dynol;

(**1**) O.S. 2007/3165 (Cy.276) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2009/1897 (Cy.170).
(**2**) 1968 p.67.

(b) ei fod yn cydymffurfio â'r crynodiadau a'r gwerthoedd a bennir yn Rhan 1 o Atodlen 1; ac

(c) yn y dŵr:

$$\frac{\text{nitrate (mg/l)}}{50} + \frac{\text{nitrite (mg/l)}}{3} \leq 1 .$$

**Diheintio**

**5.**—(1) Pan fo diheintio yn rhan o baratoi neu ddosbarthu dŵr, rhaid i'r person perthnasol (fel y'i diffinnir yn adran 80 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991(**3**))—

(a) cynllunio, gweithredu a chynnal y broses ddiheintio er mwyn cadw unrhyw halogi gan sgil-gynhyrchion dihentio mor isel ag y bo modd,

(b) cyflawni'r broses honno heb beryglu perfformiad y broses o ddiheintio,

(c) sicrhau y cynhelir perfformiad y broses o ddiheintio,

(ch) er mwyn gwirio perfformiad y broses o ddiheintio, cadw cofnodion o'r gwaith cynnal a gyflawnir i gydymffurfio â gofynion y broses ddiheintio, a

(d) cadw copïau o'r cofnodion hynny ar gael i'w harchwilio gan yr awdurdod lleol, am gyfnod o hyd at bum mlynedd.

(2) Yn y rheoliad hwn, ystyr "diheintio" yw proses o drin dŵr er mwyn—

(a) tynnu ymaith; neu

(b) gwneud yn ddiniwed i iechyd dynol,

pob micro-organeb pathogenig a pharasit pathogenig a fyddai, fel arall, yn bresennol yn y dŵr.

**Gofyniad i gynnal asesiad risg**

**6.**—(1) Rhaid i awdurdod lleol gynnal asesiad risg, o fewn pum mlynedd o'r adeg y daw'r Rheoliadau hyn i rym, ac wedyn bob pum mlynedd (neu'n gynharach os ystyrir hynny'n angenrheidiol, neu os yw o'r farn bod yr asesiad risg blaenorol yn annigonol) o bob cyflenwad preifat sy'n cyflenwi dŵr i unrhyw fangre yn ei ardal (ac eithrio cyflenwad sy'n cyflenwi dŵr i annedd breifat sengl yn unig, ac nas defnyddir ar gyfer unrhyw weithgarwch masnachol).

(2) Rhaid iddo hefyd gynnal asesiad risg o gyflenwad preifat i annedd breifat sengl yn ei ardal os gofynnir iddo wneud hynny gan berchennog neu feddiannydd yr annedd honno.

(3) Rhaid i'r asesiad risg benderfynu a oes risg sylweddol o gyflenwi dŵr a fyddai'n achosi perygl posibl i iechyd dynol.

(**3**) 1991 p.56.